**COFNODION**

**CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL (“CCB”)**

**GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR DECHNOLEG AC ARLOESI (“CPTIG”)**

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**A GYNHALIWYD YN NHŶ HYWEL**

**DYDD MERCHER 1 MAI 2018 AM 12.30PM**

| **Yn bresennol:** | |
|---|---|
| David J Rowlands AC (Cadeirydd) | UKIP |
| Mark Reckless AC | Ceidwadwyr |
| Catriona Brown (Ysgrifennydd) | |

1. Cafwyd ymddiheuriadau gan Llyr Gruffydd AC.

2. Dywedodd Catriona Brown iddi fynychu cyfarfodydd gweithgor Ynni Morol Cymru a bod dau brif fater wedi codi: (i) cyllid i gefnogi technoleg cam cynnar, a (ii) bod rheoleiddio yn creu rhwystrau diangen i'r diwydiant. Yn benodol, nid oedd Cyfoeth Naturiol Cymru am ddilyn y model “defnyddio a monitro” a ddefnyddir yn yr Alban ac felly crewyd blynyddoedd o gost ac oedi i'r diwydiant yng Nghymru, ac roedd y tîm Datgomisiynu Niwclear o'r Trysorlys yn San Steffan yn gofyn i fondiau datgomisiynu fod ar waith cyn y gallai cyfarpar morol fynd i'r dŵr, a oedd yn ymddangos yn anghymesur, gan greu mwy o fudd, o bosibl, i'r mandariniaid na'r cyhoedd.

3. Nododd David Rowlands AC y potensial ar gyfer generaduron micro-niwclear yn y safle gwaith niwclear a ddatgomisiynwyd yn Nhrawsfynydd, sydd â'r manteision o (i) fod â'r seilwaith grid trydan yn ei le, a (ii) poblogaeth leol sy'n gyfarwydd â'r safle. Nododd David Rowlands AC fod safbwyntiau gwahanol ynghylch a oedd ynni niwclear yn wyrdd. Nododd Catriona Brown fod seilwaith grid trydan, yn yr un modd, ar gael eisoes i'r diwydiant ynni morol yng Nghymru ar hyd arfordir y gogledd a de, yn wahanol i ynni gwynt yng nghanol Cymru, ac ynni morol yn yr Alban. Nododd Mark Reckless fod gan y DU lawer mwy o arbenigedd wrth adeiladu safleoedd llai, fel Rolls Royce, a allai fod o fudd i Gymru. Nododd Catriona Brown fod y diwydiant ynni morol yng Nghymru yn ceisio creu swyddi medrus a fyddai'n aros yng Nghymru wrth i'r diwydiant aeddfedu.

4. Nododd David Rowlands AC y potensial ar gyfer ynni dŵr yng Nghymru. Er enghraifft, gallai ffermwyr mynydd ddefnyddio ynni micro-hydro, a rhoddodd David Rowlands AC enghraifft o un ffermwr mynydd a oedd wedi dyblu ei incwm bron drwy osod uned 18MW a oedd yn pweru ei offer, gan werthu'r trydan dros ben yn ôl i'r grid. Nododd David Rowlands AC mai'r broblem oedd diffyg cymorthdaliadau ar gyfer gwerthu yn ôl i'r grid a fyddai'n gwneud hyn yn fwy hyfyw.

5. Trafododd y CCB generadur pŵer newydd ym Mhort Talbot. Nododd Catriona Brown pe bai Port Talbot (neu, yn wir, generaduron lleol fel y ffermwr mynydd a drafodwyd yn gynharach) yn dechrau cynhyrchu eu trydan eu hunain, byddai'n golygu bod costau'r seilwaith grid presennol yn cael eu hysgwyddo gan grŵp llai o ddefnyddwyr gan gynyddu eu prisiau trydan.

6. Rhoddodd David Rowlands AC wybod i'r CCB am ei ymweliad ag Ysbyty Athrofaol y Grange, a'r potensial i arbed arian ac amser gyda'u dull adeiladu modiwlar oddi ar y safle.

7. Cafodd David Rowlands AC ei ail-ethol yn Gadeirydd y CPTIG yn y CCB.

8. Cytunwyd y byddai Catriona Brown yn parhau fel Ysgrifennydd y CPTIG.